CYFRES A11

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Lyfr yr Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 11: 19-30

Mae'r stori yma'n sôn am:
Helpu gyda gwaith Duw

Stori 1 Paul (Saul) yn Antiochia

Ydych chi'n mwynhau helpu Mam? Efallai eich bod yn gosod y bwrdd neu'n ei helpu i wneud bwyd.

Roedd Barnabas yn mwynhau helpu Duw. Aeth i ddinas o'r enw Antiochia i sôn wrth bobl am Iesu Grist. Cyn hir, roedd mor brysur nes bod angen rhywun i'w helpu fe. Cofiodd am ei ffrind, Saul, ac aeth i chwilio amdano.

Pwy aeth Barnabas i chwilio amdano i'w helpu?

S __ __ __ .

Treuliodd Barnabas a Saul flwyddyn yn Antiochia. Roedden nhw'n sôn wrth lawer o bobl am Iesu Grist. Yr enw ar y bobl oedd yn caru Iesu Grist oedd

CRISTNOGION.

Lliwiwch y llun a'r llythrennau.

Am bwy yr oedd Barnabas a Saul yn dysgu'r bobl?

Yr A __ __ __ __ __ __ **I** __ __ __.

Mae Duw'n dal i ddefnyddio pobl sy'n ei garu i'w helpu.

Enw

DARLLENWCH
Actau 13: 1-12

Mae'r stori yma'n sôn am:
Dweud wrth bobl eraill am Iesu

Stori 2 Paul (Saul) yng Nghyprus

Roedd ar Dduw eisiau i Barnabas a Saul fynd i lefydd eraill i ddweud wrth bobl am Iesu. Felly, aethon nhw ar gwch i ynys o'r enw Cyprus.

Mae ar Iesu eisiau gweld pobl yn mynd i bob gwlad yn y byd i sôn amdano.

I ble'r aeth Saul a Barnabas?

C _ _ _ _ _ .

Fe gwrddon nhw â dewin oedd yn gweithio i ddyn pwysig. Roedd ar y dyn pwysig eisiau clywed Gair Duw ond ceisiodd y dewin wneud yn siwr na fyddai'n credu yn Iesu. Dywedodd Saul wrth y dewin ei fod yn gwneud peth drwg ac y byddai'r Arglwydd yn ei wneud yn ddall.

Aeth y dewin yn ddall! Gwelodd y dyn pwysig pa mor gryf oedd Duw. Dewisodd gredu yn Iesu Grist. Ydych chi'n credu yn Iesu Grist?

Pwy gredodd yn Iesu Grist? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir.

Y dyn pwysig .....

Y dewin .....

O hyn ymlaen, mae Saul yn cael ei alw'n Paul.

Enw

DARLLENWCH
Actau 16: 6-15

Mae'r stori yma'n sôn am:
Menyw'n credu yn Iesu Grist

Stori 3 Paul yn cwrdd â Lydia

Un tro, aeth Paul ar daith gyda dau ffrind o'r enw Silas a Timotheus. Arweiniodd Duw nhw dros y môr i dref o'r enw Philipi.

Un diwrnod, fe welson nhw fenywod yn gweddïo ar lan yr afon. Er eu bod nhw'n credu yn Nuw, doedden nhw ddim wedi clywed am Iesu Grist, oedd wedi dod o'r Nefoedd a marw drostyn nhw.

Lydia oedd enw un ohonyn nhw. Roedd hi'n falch iawn o glywed neges Paul. Roedd hi'n gwybod yn ei chalon bod y neges yn wir. Credodd hi yn Iesu Grist ar unwaith.

Cyn hir, daeth teulu Lydia'n Gristnogion hefyd. Gofynnodd Lydia i Paul a'i ffrindiau i fynd i aros yn ei thŷ hi.

Pwy gredodd yn Iesu Grist?

L _ _ _ _ .

Lliwiwch y geiriau a'r llun.

Mae'r Beibl yn dweud bod "Pawb **sy'n galw ar enw yr** Arglwydd **yn cael ei** achub."

Mae hyn yn golygu bod PAWB sy'n credu yn Iesu Grist yn cael ei achub. Mae hynny'n eich cynnwys chi!

Enw

DARLLENWCH
Actau 16: 16-34

Mae'r stori yma'n sôn am:
Rhagor o bobl yn cael eu hachub

Stori 4 Paul a Silas yn y carchar

Roedd Paul a Silas yn y carchar. Druan â nhw! Roedd rhai o bobl Philipi wedi'u cael nhw i drwbwl.



Er eu bod nhw'n anghyfforddus a'u cyrff nhw'n brifo ar ôl iddyn nhw gael eu curo, roedden nhw'n canu emynau ac yn gweddïo ar Dduw am hanner nos!

Lle oedd Paul a Silas?
Yn y c __ __ ___ __ __.

Yn sydyn, daeth daeargryn ac ysgwyd y carchar. Agorodd y drysau a syrthiodd eu cadwyni oddi arnyn nhw.

Deffrodd ceidwad y carchar. Roedd ofn mawr arno.

"Beth sy raid i mi ei wneud i gael fy achub?" gofynnodd. Nid cael ei achub rhag y daeargryn roedd e'n ei feddwl ond cael ei achub rhag ei bechod.

Dywedodd Paul a Silas wrtho mai'r unig ffordd i gael ei **achub** oedd **credu** yn **Iesu Grist.**

Credodd ceidwad y carchar a'i deulu yn Iesu Grist! Roedden nhw'n hapus am eu bod nhw'n gwybod bod Iesu wedi maddau eu beiau nhw ac, un diwrnod, y bydden nhw'n mynd i'r Nefoedd i fod gyda Iesu

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120